

**Bwletin Awdurdod S4C
- Medi 2004**

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod busnes yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2004.

Croeso

Estynnwyd croeso cynnes iawn i John Walter Jones i'w gyfarfod cyntaf fel Aelod o'r Awdurdod. Cyfeiriwyd at y ffaith fod Winston Roddick, yr Aelod newydd arall, yn anffodus wedi methu ymuno yn y cyfarfod hwn oherwydd ymrwymiad oedd eisoes ganddo yn ei swydd fel QC, ond edrychwyd ymlaen at ei groesawu i'r Awdurdod adeg cyfarfod mis Hydref. Croesawyd hefyd Tim Hartley, oedd wedi dechrau ar ei swydd fel Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol S4C ar 6 Medi.

Yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod

Adroddwyd bod cyfweiliadau wedi'u cynnal ar gyfer y swydd hon, ond nid oedd penderfyniad wedi'i gymryd hyd yma.

Adroddiad Clywch

Nodwyd bod swyddogion wrthi yn paratoi canllawiau diwygiedig ar gyfer diogelu plant yn ystod y broses o gynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C. Byddai'r canllawiau yn cael eu rhoi gerbron yr Awdurdod yn y cyfarfod nesaf. Yna, unwaith bod y canllawiau wedi'u cytuno, byddai S4C yn ymgynghori â'r Comisiynydd Plant ynglyn â nhw.

Cyfarfodydd Rhwng S4C a BBC Cymru

Soniwyd bod yna gyfarfod buddiol wedi'i gynnal rhwng y ddau Gadeirydd a'r ddau Brif Weithredwr ar 9 Medi. Fe fyddai'r ddau Brif Weithredwr yn cwrdd ar 27 Medi i symud pethau ymlaen ar yr elfennau perthnasol oedd yn deillio o Adroddiad Laughton parthed y berthynas rhwng y ddau gorff. Yn ogystal, trafododd yr Aelodau y cyfarfod a fu rhwng Awdurdod S4C a'r Cyngor Darlledu a gafodd ei gynnal ar 9 Medi.

Cydymffurfiaeth *[Datganodd yr Aelod, Dafydd Wigley, ddiddordeb yn y mater hwn.]*

Trafodwyd ymhellach adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol ar yr amser darlledu a roddwyd i'r gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ystod 2003. Byddai'r Cyfarwyddwr Rhaglenni cyn diwedd y flwyddyn yn cyflwyno, ar gyfer ystyriaeth yr Awdurdod, polisi diwygiedig ar gyfer darlledu gwleidyddol.

Adroddiad Laughton

Soniwyd bod amser cyhoeddiad yr adroddiad hwn gan y DCMS, h.y. dros yr haf, wedi bod yn anffodus. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr adolygiad wedi cael y fath o argraff y byddai S4C wedi'i ddymino. Roedd nawr angen ailgydio yn hwn a chreu momentwm tu ôl iddo. Fel rhan o hyn, byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol y DCMS i'w hysbysu ei bod hi'n fwriad gan S4C i yrru ymateb i adroddiad Laughton ati wedi i'r Sianel ymgynghori â'i phartneriaid.

Diffodd Analog

Nodwyd y trafodaethau diweddaraf oedd yn mynd yn eu blaen parthed trefniadau'r Llywodraeth ar gyfer diffodd analog maes o law.

Ymgynghoriad Cyhoeddus OFCOM: Côt Darlledu Arfaethedig

Ystyriwyd papur a dynnodd sylw'r Awdurdod at y prif newidiadau yr oedd OFCOM yn ystyried eu gwneud i'r rheolau a chanllawiau o ran cydymffurfiaeth rhaglenni. Cytunwyd y dylai'r hyn a gyflwynwyd yn y papur ffurfio sail ymateb S4C i'r ymgynghoriad gan OFCOM. Byddai'r ymateb yn cael ei gyhoeddi ar wefan OFCOM.

Ymgynghoriad Cyhoeddus y DCMS: Darllediadau Gwleidyddol

Ystyriodd yr Awdurdod bapur oedd yn gosod allan ymateb awgrymiedig i ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddarllediadau gwleidyddol. Yn ychwanegol, adroddodd y Prif Weithredwr ar lafar. Cytunodd yr Awdurdod y dylid gyrru'r ymateb i'r DCMS, gan gynnwys yr ychwanegiad a adroddwyd ar lafar. Nodwyd y byddai'r DCMS yn cyhoeddi'r ymateb ar ei safle we.

Aelodaeth Pwyllgorau Awdurdod S4C

Gan bod yr Awdurdod wedi gweld rhai Aelodau'n ymadael ag eraill yn ymuno yn ddiweddar, teimlwyd ei bod hi'n amserol i adolygu aelodaeth y pwyllgorau. Cytunwyd ar y canlynol:

Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Dafydd Wigley (Cadeirydd)
Eira Davies
John Walter Jones

Pwyllgor Personel a Chydnabyddiaeth

Enid Rowlands (Cadeirydd)
Roger Jones
Elan Closs Stephens

Pwyllgor Cwynion

Winston Roddick (Cadeirydd)
Carys Howell
Chris Llewelyn
Alwyn Roberts (aelod annibynnol o'r Pwyllgor).

Cyfarfodydd yr Awdurdod yn 2005

Cytunodd yr Awdurdod ar amserlen ei gyfarfodydd ar gyfer 2005.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr Masnachol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 10 Medi 2004
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil